
# Stori Rosie: Beth fydd yn digwydd os yw teuluoedd yn newid?

## Canllawiau Athrawon





**Prifysgol Caerwysg**
**Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Cymru (NYAS Cymru)**
**Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC)**



Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad 2

Paratoi i addysgu 2

Hawliau plant o dan CCUHP 2

Rheoli effaith gwahanu ac ysgariad 3

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru 4

Cysylltiadau â 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' yn Iechyd a Lles a'r Dyniaethau 6

Cysylltiadau â'r 'camau cynnydd' yn Iechyd a Lles a'r Dyniaethau 7

Dysgwyr ag anghenion ychwanegol 10

Diogelu 11

Creu amgylchedd dysgu diogel 12

Datblygu dealltwriaeth 13

Geirfa termau 13

Cyfeirio at gefnogaeth 15

Cefnogaeth i athrawon 15

Cefnogaeth i ddysgwyr 15

Adnodd 1: Stori Rosie: Beth fydd yn digwydd os yw teuluoedd yn newid?(Rhan 1) 17

Trosolwg Adnodd 1 18

Awgrymiadau dysgu ac amseru 19

Asesiad sylfaenol 20

Gweithgareddau craidd 20

Asesu'r dysgu 24

Adnodd 2: Stori Rosie: Beth fydd yn digwydd os yw teuluoedd yn newid? (Rhan 2) 25

Trosolwg Adnodd 2 26

Awgrymiadau dysgu ac amseru 27

Asesiad sylfaenol 28

Gweithgareddau craidd 29

Asesu'r dysgu 35

Taflen cwis cyflym 36

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y canllawiau hyn i gyd-fynd ag adnoddau addysgu mewn dwy ran i ddysgwyr sy'n gweithio ar lefel Camau cynnydd 2 a 3 yn canolbwyntio ar fywyd teuluol, newidiadau i deuluoedd a'r help sydd ar gael i blant a phobl ifanc os yw rhieni a gofalwyr yn gwahanu.

Mae'r adnoddau addysgu'n cefnogi addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) sy'n orfodol yn y **Cwricwlwm i Gymru**[1]. Mae'r adnoddau hefyd yn cefnogi datblygu ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion gwybodus Cymreig a hyrwyddo gwell iechyd meddwl a lles ymhlith dysgwyr wedi i'w rhieni wahanu. Mae'r dysgu'n cwympo gan fwyaf dan 'ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ym Meysydd Dysgu a Phrofiad **Iechyd a Lles** a'r **Dyniaethau**, fodd bynnag gallai fod datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig gyda disgrifiadau dysgu sydd hefyd yn berthnasol.

Mae'r adnoddau addysgu wedi'u hysgrifennu gan ymchwilwyr yn Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Caerwysg, gan weithio ar y cyd â dau fudiad sy'n arbenigo mewn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ar ôl i'w rhieni wahanu: y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) a'r Gymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC).

Darllenwch ac ystyriwch y canllaw hwn yn gyntaf cyn addysgu'r adnodd.

## Paratoi i addysgu

Dylid addysgu'r adnoddau hyn fel rhan o addysgu ehangach ar berthnasoedd iach yng nghyd-destun rhieni'n gwahanu. Yn y cwricwlwm cyfredol, o fewn rhaglen addysg ACRh gynhwysfawr a'r Cwricwlwm i Gymru, Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a'r Dyniaethau. Mae'r adnoddau'n ystyried gwahanol fathau o deuluoedd a sut gall teuluoedd ofalu am ei gilydd. Maen nhw hefyd yn ystyried sut mae teuluoedd yn newid os yw rhieni a gofalwyr yn gwahanu, yr hawliau sydd gan blant a phobl ifanc i esbonio eu safbwyntiau a bod y safbwyntiau hyn yn cael eu cymryd o ddifri pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud am eu bywydau (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), Erthygl 12). Mae hefyd angen i ddysgwyr ddysgu dulliau o reoli galar ynghylch newid perthnasoedd. Mae'r rhain yn cynnwys effaith gwahanu ac ysgaru, pa ffynonellau cymorth sydd ar gael iddynt a sut i'w cyrchu pan fydd rhieni a gofalwyr yn gwahanu. Mae'r addysgu'n mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn. Mae adnoddau PowerPoint gyda'r nodiadau isod ar gyfer pob adnodd wedi'u hatgynhyrchu yn yr adran nodiadau o dan y sleidiau er hwylustod wrth addysgu.

### Hawliau plant o dan CCUHP

CCUHP yw'r “safon aur” fyd-eang ar gyfer hawliau plant ac mae'n nodi hawliau sylfaenol pob plentyn. Dyma'r cytundeb hawliau dynol a gadarnhawyd fwyaf aml a chyflym mewn hanes. Mae'r CCUHP yn nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol pob plentyn. Mae'r gwledydd sydd wedi cadarnhau'r CCUHP yn cytuno i ddiogelu'r hawliau hyn a sicrhau bod oedolion a phlant yn gwybod amdanyn nhw.

[1] Fel y diweddarwyd ar 10 Ionawr 2022 yn unol â Deddf Cwricwlwm Cymru 2021

Llofnodwyd y CCUHP ym 1989 a'i 'chadarnhau' gan y DU, gan nodi trwy hynny cydsyniad y DU i ymrwymo i delerau'r confensiwn, ym 1991. Mae wedi'i lofnodi gan 196 o wledydd y mae pob un ohonynt heblaw UDA wedi'i gadarnhau.[2] Mae ganddo bedair egwyddor arweiniol (peidio â gwahaniaethu; budd pennaf y plentyn; yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad; a hawl plant i fynegi eu barn yn rhydd ac i gael eu clywed) sy'n berthnasol i bawb dan 18 oed.

Yn y DU, cymerodd Cymru yr awenau ar ymgorffori CCUHP yn neddfwriaeth gan basio **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)** ("Y Mesur"). O fis Mai 2014, mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi'r pwysau priodol ar ofynion CCUHP, gan eu cydbwyso yn erbyn yr holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw.

Mae'r Mesur hefyd yn gwneud Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gwybod am, yn deall ac yn parchu hawliau plant a phobl ifanc, fel yr amlinellir yn Erthygl 42 CCUHP.[3]

Mae dysgu am hawliau dynol, y rhyddid a'r amddiffyniad y mae gan bob person yr hawl iddynt yn **ofyniad ehangach** o'r Cwricwlwm i Gymru. [4] Rhaid i ysgolion hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP (a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau) ymhlith y rhai sy'n darparu dysgu ac addysgu mewn perthynas â chwricwlwm eu hysgol.[5]

Mae hawl plant a phobl ifanc i wybodaeth, ymgynghori a (lle bo angen) chynrychiolaeth o fewn y prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer eu dyfodol pan fo rhieni a gofalwyr yn gwahanu wedi'i chorffori yn Erthygl 12 CCUHP. Mae trafod yr hawliau sydd gan blant a phobl ifanc dan Erthygl 12 yn sicrhau bod y thema sensitif o'u hawliau pan fo rhieni a gofalwyr yn gwahanu'n cael ei haddysgu mewn modd cyffredinol heb greu stigma.

## Rheoli effaith gwahanu ac ysgariad

Mae rhieni tua 280,000 o blant a phobl ifanc yn gwahanu bob blwyddyn.[6] Mae ymchwil gan Brifysgol Caerwysg a ariannwyd gan The Wellcome Centre for the Cultures and Environments of Health (The Healthy Relationship Transitions (HeaRT) Project) wedi dangos bod awydd cryf ymhlith plant a phobl ifanc am wybodaeth o ansawdd uchel o ffynhonnell ddibynadwy am drefniadau iddyn nhw pan fydd eu rhieni a gofalwyr yn gwahanu. Roedd yr ymchwil yn dystiolaeth bellach bod

---

[2] O dan gyfansoddiad yr UD, Erthygl II, Cymal 2, Adran 2, unwaith y bydd confensiwn wedi'i lofnodi mae'r Llywydd yn ei anfon at y Senedd sy'n gorfod ei gymeradwyo gyda mwyafrif o ddau draean. Er y llofnodwyd CCUHP dan weinyddiaeth Clinton, mae'r Arlywydd Clinton a'i olynwyr wedi methu ag anfon y confensiwn i'r Senedd i gadarnhau'r hawliau hyn i gyfreithiau'r UD.

[3] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a.5.

[4] Ynghyd ag ACRh, amrywiaeth, gyrfaoedd a phrofiadau yn ymwneud â gwaith a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

[5] Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a 64(1).

[6] Gweler adroddiad The Family Solutions Group, Tachwedd 2020 ar d.19, ar gael yn: https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2020/11/FamilySolutionsGroupReport_WhatAboutMe_12November2020.pdf-final.pdf

ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn eu helpu i addasu i'r gwahaniad a bod hyn yn gallu bod yn 'gathartig'.[7] Pan fod barn plant yn cael eu ceisio, mae'r trefniadau a wneir yn para'n hirach, er anaml y cânt eu hymgynghori. Bydd addysgu Adnodd 1 yn cefnogi'r dysgu a sut i gefnogi normaleiddio'r ystod o emosiynau y gallai plant a phobl ifanc bod yn teimlo os yw eu rhieni a gofalwyr yn gwahanu. Dylai hyn helpu plant a phobl ifanc sy'n dod i delerau â gwahanu neu eu helpu i gefnogi eraill sy'n mynd drwy'r broses hon. Canfuwyd bod methu â darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc ar yr adeg sensitif hon yn ychwanegu at eu synnwyr o ddryswch ac ansicrwydd.[8] Mae'r adnoddau addysgu'n mynd i'r afael â hyn drwy nodi pa hawliau sydd gan blant a phobl ifanc pan fydd rhieni a gofalwyr yn gwahanu.

Yn Adnodd 1, trwy archwilio amrediad o fathau o deuluoedd (perthnasoedd priod, teuluoedd un rhiant, teuluoedd cymysg a theuluoedd o'r un rhyw) ac archwilio'r tebygrwydd rhwng teuluoedd o ran sut maen nhw'n gofalu am aelodau o'r teulu, bydd dysgwyr yn dysgu gwerthoedd megis parch ar gyfer gwahanol fathau o deuluoedd. Bydd hefyd yn helpu i atal stigmateiddio dysgwyr sydd â rhieni a gofalwyr sydd wedi gwahanu. Yn Adnodd 2, nod y dysgu yw esbonio'r prosesau cyfreithiol yn ymwneud â gwahanu a darparu plant a phobl ifanc â manylion ffynonellau cymorth a sut i'w cyrchu pan fydd rhieni a gofalwyr yn gwahanu.

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r adnodd hwn ar gyfer dysgwyr ar Gamau Cynnydd 2 a 3 yn helpu i fodloni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru sy'n nodi mai nod cwricwlwm ysgol yw cefnogi ei dysgwyr i ddod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- ac yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bydd yr adnodd hwn yn helpu ar ddau o'r pedwar diben hyn, gan helpu dysgwyr i ddod:

- **yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd:**
  - yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
  - yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
  - yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol

ac **yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd**

- **yn unigolion iach, hyderus sydd:**

[7] Gweler yr Adroddiad a'r Prif Ganfyddiadau ar gael yn: https://wcceh.org/wp-content/uploads/The_Healthy_Relationships_Project_Report_-and_Key_Findings.pdf,
[8] Gweler 'Creating Paths to Family Justice Briefing Paper and Report on Key Findings' ar gael yn: http://socialsciences.exeter.ac.uk/media/universityofexeter/collegeofsocialsciencesandinternationalstudies/lawimages/familyregulationandsociety/Creating_Paths_briefing_paper_final_for_website_02.10.17__isbn_(003)_05-03-18.pdf.

- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach

ac yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r tabl isod yn dangos canllaw, ond nid rhestr gyflawn, o sut mae'r adnoddau addysgu yn cyd-fynd ag addysgu ar hawliau yng Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru a'r Arweiniad ar ACRh . Mae ACRh yn elfen drawsbynciol, gan dynnu ar wahanol feysydd dysgu a disgyblaethau pwnc yn ogystal â bod yn rhan o Iechyd a Lles. Gan adeiladu ar ofyniad y Cod ACRh bod addysgu ACRh yng Nghymru yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol, mae'r adnoddau addysgu yn helpu dysgwyr i reoli perthnasoedd sy'n newid os yw rhieni a gofalwyr yn gwahanu, a dysgu am ffynonellau cymorth a sut i gael gafael arnynt. Mae'r adnoddau addysgu wedi'u dyfeisio i'w defnyddio yng Ngham 3 o'r cod ACRh, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o Gamau 1 a 2 i atgyfnerthu a chryfhau gwybodaeth a sgiliau.

| Canllawiau Cwricwlwm i Gymru | Arweiniad ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb |
|---|---|
| **Mae datblygiad y cwricwlwm:**<br>▪ yn fodd pwysig o ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ym mhrofiadau dysgu ein plant a'n pobl ifanc, ac o sicrhau eu bod yn deall eu hawliau. | **Dylai ACRh alluogi hawliau dynol**<br>▪ Dylai ysgolion a lleoliadau drafod ACRh yng nghyd-destun hawliau plant fel y'u hamddiffynnir gan CCUHP.<br>**Dylai dysgu mewn ACRh dynnu sylw at:**<br>▪ yr hawl i gael gwrandawiad a chael eich cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau (Erthygl 12).<br>**Dylai dysgu mewn ACRh helpu i sicrhau:**<br>▪ y gall pob dysgwr weld eu hunain, eu teuluoedd, eu cymunedau a'i gilydd yn cael eu hadlewyrchu ar draws y cwricwlwm a gallant ddysgu i werthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth fel ffynhonnell cryfder. |

| | |
|---|---|
| | Gan adeiladu ar Cod ACRh, dylai'r ymagwedd at ACRh fod yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol, gan ystyried sut y gallai fod angen cefnogi dysgwyr i:<br>▪ ddeall ac ymdopi â newid, gwrthdaro a phwysau [yma, os yw rhieni a gofalwyr yn gwahanu]<br>▪ … gwybod sut i geisio cymorth [a]<br>▪ … ceisio cymorth a chyngor lle bo'n briodol. |

## Cysylltiadau â 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' yn Iechyd a Lles a'r Dyniaethau

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r adnoddau addysgu yn cwmpasu nifer o'r 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' o feysydd Iechyd a Lles a'r Dyniaethau yn y drefn honno. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yr ydym wedi'u hamlinellu yn y canllawiau hyn yn rhai enghreifftiau o'r hyn y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer yr adnoddau hyn. Mae'n bosib bod mwy o 'ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig' y mae'r adnoddau hyn yn perthyn iddynt.

| Iechyd a Lles | Y Dyniaethau |
|---|---|
| **Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.** | **Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.** |
| Yn Adnodd 1, bydd trafod pan mae rhieni a gofalwyr yn gwahanu a normaleiddio'r ystod o emosiynau y gall plant a phobl ifanc fynd drwyddynt pan fydd rhieni a gofalwyr yn gwahanu yn helpu dysgwyr i:<br>▪ archwilio'r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol...[a] galluogir dysgwyr i ddeall nad yw teimladau ac emosiynau'n sefydlog nac yn gyson<br>▪ [datblygu] empathi... [gall hyn eu galluogi]... i ymddwyn mewn | Yn Adnodd 2, bydd addysgu plant a phobl ifanc am eu hawl i fynegi eu barn o dan CCUHP, Erthygl 12 pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud wedi i'w rhieni a'u gofalwyr wahanu, yn helpu dysgwyr i:<br>▪ feithrin dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach<br>▪ fod yn ddinasyddion gweithredol, gwybodus a chyfrifol<br>▪ feithrin ymwybyddiaeth o'u hawliau eu hunain (gan gynnwys |

| | |
|---|---|
| ffordd sy’n cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol eraill<br>- datblygu strategaethau sydd o gymorth iddyn nhw reoli eu hemosiynau<br>- sylwi pryd a lle mae ceisio help a chefnogaeth<br>- datblygu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a [bod] gallu eirioli ar ran eraill<br>- [dysgu] sut i fynegi eu teimladau [felly] bydd dysgwyr mewn sefyllfa well i greu diwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn weithred arferol.<br><br>**Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.**<br><br>Yn Adnodd 2, gan drafod pan mae rhieni a gofalwyr yn gwahanu, rhywbeth y bydd llawer o blant a phobl ifanc yn cael profiad ohono, bydd yr addysgu yn helpu dysgwyr i:<br>- ddeall a gwerthfawrogi sut mae’r ymdeimlad o berthyn a chyswllt a ddaw o berthnasau iach yn cael effaith bwerus ar iechyd a lles<br>- sylweddoli pan nad yw’r cydberthnasau yn iach a... bod yn ymwybodol o sut i fod yn ddiogel, a cheisio cymorth iddyn nhw eu hunain ac i eraill<br>- deall y byddan nhw’n cael profiad o amrywiaeth o gydberthnasau drwy gydol eu bywydau<br>- datblygu eu gallu i... feithrin a chynnal cydberthnasau. | yr hawliau a warchodir i dan CCUHP), ynghyd â’u hanghenion, eu pryderon a’u teimladau hwy eu hunain a phobl eraill. |

## Cysylltiadau â'r 'camau cynnydd' yn Iechyd a Lles a'r Dyniaethau

Rydym wedi cynnwys enghreifftiau o ddilyniant lle mae rhaid i ddysgwyr ailedrych ar a dyfnhau dysgu mewn cysyniadau o fewn y 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ar draws ystod eang o destunau ac agweddau ar feysydd Iechyd a Lles a'r Dyniaethau. Er bod yr adnoddau wedi’u hanelu at Gamau Cynnydd 2 a 3, mae’n ddefnyddiol

gwybod, yng Ngham Cynnydd 1 Iechyd a Lles, y bydd dysgwyr wedi dysgu nodi pwy yw eu teulu ac wedi dechrau cydnabod bod ganddynt yr hawl i gael eu trin yn deg ac â pharch. Yng Ngham Cynnydd 1 y Dyniaethau, bydd dysgwyr wedi dechrau deall yr angen i barchu eraill. Gan adeiladu o hyn, mae'r tablau isod yn dangos enghreifftiau o rai ymagweddau yn yr adnoddau addysgu y gellir eu cymryd i helpu dysgu o dan Gamau Cynnydd 2 a 3 ar gyfer Iechyd a Lles a'r Dyniaethau. Dylai athrawon ystyried y dysgu blaenorol yr oedd eu dysgwyr wedi'i brofi a chyfnod eu datblygiad wrth gynllunio i addasu/defnyddio'r adnoddau hyn i sicrhau bod eu haddysgu gan ddefnyddio'r adnoddau hyn yn briodol i'w dysgwyr, ac yn hwyluso cynnydd yn seiliedig ar ddysgu blaenorol.

<table>
<tr><th colspan="2">Iechyd a Lles</th></tr>
<tr><th>Cam Cynnydd 2</th><th>Cam Cynnydd 3</th></tr>
<tr>
<td>Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.<br><br>Mae Adnodd 1 yn trafod rhieni'n gwahanu ac yn normaleiddio emosiynau y gall plant a phobl ifanc fynd drwyddynt. Mae Adnodd 2 yn trafod ffynonellau cymorth i blant a phobl ifanc pan fydd rhieni'n gwahanu. Bydd y ddau adnodd yn helpu dysgwyr i ddeall meysydd allweddol a amlinellir yng Ngham Cynnydd 2 megis:<ul><li>Gallaf nodi fy nheimladau a'u cyfleu.</li><li>Rwy'n dechrau sylwi pan fydd angen help arnaf i reoli fy nheimladau.</li><li>Gallaf fyfyrio ar fy mhrofiadau.</li><li>Gallaf roi sylw i deimladau pobl eraill ac rwy'n dysgu meddwl pam y gallent deimlo felly.</li></ul></td>
<td>Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.<br><br>Mae Adnodd 1 yn trafod rhieni'n gwahanu ac yn normaleiddio emosiynau y gall plant a phobl ifanc fynd drwyddynt. Mae Adnodd 2 yn trafod ffynonellau cymorth i blant a phobl ifanc pan fydd rhieni'n gwahanu. Bydd y ddau adnodd yn helpu dysgwyr i ddeall y meysydd allweddol a amlinellir yng Ngham Cynnydd 3 megis:<ul><li>Gallaf weld manteision cyfathrebu am deimladau fel un o ystod o strategaethau a all helpu i hybu iechyd meddwl cadarnhaol a lles emosiynol.</li><li>Gallaf ofyn am help pan fydd ei angen arnaf gan bobl rwy'n ymddiried ynddynt.</li><li>Gallaf fyfyrio ar sut mae digwyddiadau a phrofiadau'r gorffennol wedi effeithio ar fy meddyliau, teimladau a gweithredoedd.</li></ul></td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.**<br><br>Mae Adnodd 1 yn trafod gwahanol fathau o deuluoedd ac yn normaleiddio emosiynau y gall plant a phobl ifanc fynd drwyddynt. Mae Adnodd 2 yn trafod ffynonellau cymorth i blant a phobl ifanc a'u hawl i leisio'u barn pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl i'w rhieni a'u gofalwyr wahanu. Bydd y ddau adnodd yn helpu dysgwyr i ddeall y meysydd allweddol a amlinellir yng **Ngham Cynnydd 2** megis:<br>▪ Gallaf gydnabod bod gwahanol fathau o berthnasoedd y tu hwnt i'm teulu a'm ffrindiau.<br>▪ Gallaf gyfleu fy anghenion a'm teimladau yn fy mherthnasoedd, a sylwi ar anghenion a theimladau pobl eraill.<br>▪ Gallaf ddeall bod gan bawb hawliau a, gyda chefnogaeth, gallaf barchu'r hawliau hynny. | ▪ Gallaf ragweld sut y gall digwyddiadau yn y dyfodol wneud i mi ac eraill deimlo.<br>▪ Gallaf deimlo empathi ag eraill.<br>▪ Gallaf ddeall sut a pham mae profiadau'n effeithio arnaf i ac eraill.<br><br>**Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.**<br><br>Mae Adnodd 1 yn trafod gwahanol fathau o deuluoedd ac yn normaleiddio emosiynau y gall plant a phobl ifanc fynd drwyddynt. Mae Adnodd 2 yn trafod ffynonellau cymorth i blant a phobl ifanc a'u hawl i leisio'u barn pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl i'w rhieni a'u gofalwyr wahanu. Bydd y ddau adnodd yn helpu dysgwyr i ddeall y meysydd allweddol a amlinellir yng **Ngham Cynnydd 3** megis:<br>▪ Gallaf ddeall bod gwahaniaethau o fewn mathau o berthnasoedd a bod perthnasoedd yn newid dros amser.<br>▪ Gallaf gyfathrebu fy anghenion a theimladau, ac ymateb i rai pobl eraill.<br>▪ Gallaf fyfyrio ar nodweddion perthnasoedd diogel a gallaf geisio cymorth pan fo angen.<br>▪ Gallaf barchu hawliau pobl eraill ac rwy'n deall sut mae'r rhain yn effeithio arnaf i ac eraill. |

| Y Dyniaethau | |
|---|---|
| **Cam Cynnydd 2** | **Cam Cynnydd 3** |
| **Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.** | **Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol** |

| | |
|---|---|
| Yn Adnodd 2, mae plant a phobl ifanc yn dysgu am eu hawl i fynegi eu llais a chael eu clywed pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl i'w rhieni a gofalwyr wahanu.  Bydd dysgwyr yn cynyddu eu dealltwriaeth yng **Ngham Cynnydd 2** megis:<br>▪ Rwy'n dechrau deall beth yw hawliau dynol a pham eu bod yn bwysig.<br>▪ Gallaf ddeall bod angen i ni barchu hawliau pobl eraill. | Yn Adnodd 2, mae plant a phobl ifanc yn dysgu am eu hawl i fynegi eu llais a chael eu clywed pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl i'w rhieni a gofalwyr wahanu. Bydd dysgwyr yn cynyddu eu dealltwriaeth yng **Ngham Cynnydd 3** megis:<br>▪ Mae gen i ddealltwriaeth bod anghyfiawnder ac anghydraddoldeb yn bodoli mewn cymdeithasau. Mae gen i ddealltwriaeth hefyd o beth yw hawliau dynol a pham maen nhw'n bwysig i mi ac i bobl eraill.<br>▪ Gallaf egluro pwy sy'n gyfrifol am gynnal hawliau yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach. Rwyf hefyd yn deall bod rhai pobl yn cael eu hamddifadu o'u hawliau. |

## Dysgwyr ag anghenion ychwanegol

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn sôn am lefelau uwch o drallod mewn perthynas ac yn ystyried ysgariad neu wahanu yn amlach.[9] Gall y testunau a gwmpesir yn yr adnoddau addysgu hyn felly fod yn arbennig o berthnasol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.

Mae'r Ddeddf berthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgu sy'n cwmpasu ACRh a ddarperir gan ysgolion fod yn briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr.[10] Golyga hyn bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau ystyried ystod o ffactorau gan gynnwys oedran y dysgwr; gwybodaeth ac aeddfedrwydd; unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a rhagweld eu datblygiad seicolegol ac emosiynol. Rhaid i ACRh fod yn briodol i ddatblygiad pob dysgwr, sy'n golygu y gall anghenion dysgwyr o oedrannau tebyg amrywio.[11] Dylai pob aelod o staff, nid dim ond athrawon, fod yn ymwybodol o ddull yr ysgol o ymdrin ag ACRh wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dylai ysgolion sy'n darparu addysg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol a difrifol, dwys a lluosog ystyried wrth ddylunio'r cwricwlwm beth yw'r ffordd orau o

---

[9] Relate, Relationships Scotland and Mencap (2017) Under pressure: The relationships of UK parents who have a child with a learning disability ar gael yn: https://www.relationships-scotland.org.uk/wp-content/uploads/TWWAN-8-Feb-Families-Under-Pressure-Learning-Disabilities-Full-Report.pdf.

[10] Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a 24(2) (ysgolion a gynhelir) a 50(4) (Unedau Cyfeirio Disgyblion)

[11] Pan fo trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer dysgwr o dan adran 19A Deddf Addysg 1996 (nad yw'n Uned Cyfeirio Disgyblion) rhaid i gwricwlwm a sicrhawyd ar gyfer y dysgwr hwnnw fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygiad y plentyn hwnnw (adran 53(4) Deddf 2021).

ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr nad yw eu dealltwriaeth o berthnasoedd a materion iechyd a llesiant o bosibl yn cyd-fynd â'u datblygiad. Mae'n bosibl y bydd angen i ysgolion sydd â dysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol a difrifol addasu'r adnoddau addysgu i fodloni gwahanol anghenion eu dysgwyr.

Dylai athrawon gynllunio sut y gallant wahaniaethu addysgu i gynnwys a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ysgafn neu y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae gan Adnodd 1, sleidiau 12 a 15 ac Adnodd 2, sleidiau 15 a 16, weithgareddau cefnogaeth ar gyfer y dysgwyr hynny, wedi'u nodi gyda ?.

## Diogelu

Mae rheoli'r galar sy'n gysylltiedig â rhieni'n gwahanu yn bwnc emosiynol.  Mae'r adnodd addysgu dwy ran hwn wedi'i leoli o fewn trafodaeth am hawliau plant yn fwy cyffredinol o dan CCUHP, er mwyn sicrhau bod yr addysgu'n gyffredinol a heb stigma. Serch hynny, gan fod tua 87,000 o blant dibynnol yn byw ar aelwydydd un rhiant yng Nghymru yn 2021,[12] ac mae tystiolaeth o Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn dangos nad oedd 39% o blant yn byw yn yr un cartref â'r ddau riant erbyn eu bod yn 11 oed. [13] Mae'n debygol y bydd nifer o blant yn y dosbarth y mae eu rhieni a'u gofalwyr wedi gwahanu, neu y mae eu ffrindiau agos neu eu teulu gwahanu ar y pryd. Bydd eraill yn byw mewn cartrefi sydd â lefelau uchel o wrthdaro rhwng rhieni a gofalwyr.

Dylid rhoi'r mesurau diogelu canlynol ar waith.

- Rhowch wybod i staff bugeiliol a diogelu am y dyddiadau y byddwch yn addysgu'r pwnc hwn a'u hannog i drafod cynnwys yr adnodd addysgu gydag unrhyw ddysgwyr sy'n cael cymorth ar ôl i rieni wahanu neu oherwydd anawsterau yn y cartref.
- Rhowch gyfle i'r dysgwr/dysgwyr dynnu'n ôl o'r sesiwn ddysgu os yw'n briodol (heb fod disgwyl iddynt gyfiawnhau eu habsenoldeb i'w cyfoedion). Ystyriwch sut i fynd ar drywydd y sesiwn ddysgu a gollwyd gyda'r dysgwr/dysgwyr, gan y gallai'r dysgu hwn fod yn arbennig o berthnasol iddynt.
- Cyfeiriwch at ffynonellau cymorth cyn, yn ystod ac ar ôl y sesiwn ddysgu.
- Sicrhewch fod yr holl athrawon sy'n cyflwyno'r deunyddiau yn gyfarwydd â pholisïau diogelu/amddiffyn plant yr ysgol a phrotocolau diogelu, ac yn eu

[12] Gweler: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/datasets/householdsbytypeofhouseholdandfamilyregionsofenglandandukconstituentcountries (Tabl 7, Cymru). Yn y pum mlynedd hyd at 2019, yng Nghymru y gwelwyd y newid mwyaf yng nghyfran y teuluoedd un rhiant o gymharu â rhanbarthau eraill y DU (gweler: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/bulletins/familiesandhouseholds/2019).

[13] Platt, L. (Gol.) *Millennium Cohort Study Initial findings from the Age 11 survey* (Tachwedd 2014): Institute of Education, University of London ar gael yn: https://cls.ucl.ac.uk/wp-content/uploads/2017/07/Millennium-Cohort-Study-Initial-findings-from-the-Age-11-survey-Full-report-WEB-VERSION.pdf.

dilyn, gan gynnwys polisi'r ysgol ynghylch pryd y dylid hysbysu rhieni o'r testunau a fydd yn cael eu haddysgu.
- Os bydd dysgwr yn gwneud datgeliad am fater personol yn ystod y sesiwn ddysgu, yn dilyn yr addysgu, dylai athrawon gyfeirio at y polisi diogelu/amddiffyn plant a hysbysu'r Person Diogelu Dynodedig, fel y gellir rhoi cymorth priodol ar waith.

## Creu amgylchedd dysgu diogel

Mae amgylchedd dysgu diogel yn helpu dysgwyr i fynegi barn ac ystyried safbwyntiau eraill yn ddiogel a dylid ei sefydlu ym mhob elfen o'r dysgu. O ystyried natur y testunau a drafodir yn yr adnoddau addysgu, mae'n arbennig o bwysig bod yr amgylchedd dysgu ar gyfer y dysgwyr yn ddiogel. Rhaid i athrawon fod yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r dysgwyr. Defnyddir technegau ymbellhau yn y sesiwn ddysgu – mae dysgwyr yn dilyn y daith wahanu dros gyfnod o ddeuddeng mis ym mywyd Rosie, merch 9 oed ffug, i archwilio hawliau plant a phobl ifanc pan fydd eu rhieni a'u gofalwyr yn gwahanu. Mae'r naratif yn normaleiddio sut y gall plant a phobl ifanc deimlo ar yr adeg anodd hon o drawsnewid. Dylid annog dysgwyr i drafod sut y gallai Rosie fod yn teimlo, er mwyn atal datgeliadau personol. Dylai athrawon gyfeirio at yr **Arweiniad ar ACRh** a'r **Cod ACRh** cyn addysgu. Dylent hefyd ymgyfarwyddo â'r **Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol**.

Os yw dosbarth wedi sefydlu 'rheolau sylfaenol dosbarth' yna gellir defnyddio'r rhain, a gellir gofyn i'r dysgwyr hefyd ychwanegu at y rheolau sylfaenol fel y bo'n briodol. Fel arall, argymhellir y rheolau sylfaenol canlynol

Sef:
- byddwn yn garedig ac yn dosturiol i eraill
- byddwn yn siarad am 'rywun dwi'n nabod...' yn hytrach na defnyddio enw person
- mae gennym yr hawl i beidio ag ateb
- byddwn yn gwneud sylwadau ar yr hyn a ddywedir, nid pwy sydd wedi ei ddweud
- byddwn yn ceisio cymorth yn yr ysgol/annog ffrindiau i geisio cymorth os oes angen.

Ni fyddwn:
- yn rhoi gwybodaeth am stori ein teulu
- yn dweud stori pobl eraill wrth unrhyw un arall
- yn beirniadu eraill
- yn rhoi unrhyw un mewn picil
- yn gofyn cwestiynau personol na cheisio codi cywilydd ar rywun.

Dylai athrawon hefyd:
- gael 'basged hoffwn holi'/blwch cwestiynau i ddysgwyr ofyn cwestiynau'n gyfrinachol

- adolygu a mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau a gyflwynir yn y 'fasged hoffwn holi'/blwch cwestiynau dienw
- gweithio o fewn polisïau’r ysgol ar ddiogelu a chyfrinachedd
- cysylltu ACRh â'r ymagwedd ysgol gyfan i gefnogi lles dysgwyr
- gwneud dysgwyr yn ymwybodol o ffynonellau cymorth, yn yr ysgol a thu allan
- egluro wrth y dysgwyr, er bod cyfrinachedd yn bwysig, os dywedir rhywbeth neu os bydd ymddygiad yn peri pryder, y gall athrawon siarad ag aelod arall o staff.

Dylai athrawon fod yn effro i unrhyw ddatgeliad posibl o drais domestig, yn enwedig wrth addysgu'r adnoddau hyn a dylent ymgyfarwyddo â Trais yn erbyn menywod - pecyn cymorth addysgol cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer ysgolion uwchradd: Adnoddau addysgol ysgolion uwchradd.

# Datblygu dealltwriaeth

## Geirfa termau

Efallai na fydd llawer o’r termau a ddefnyddir yn yr adnodd yn gyfarwydd i ddysgwyr oni bai bod eu rhieni wedi gwahanu. Er mwyn sicrhau bod termau cywir yn cael eu defnyddio yn ystod y dysgu, nodir geirfa termau a ddefnyddir isod.

**Adnodd 1**

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| Priodas | Undeb cyfreithiol rhwng cwpl cymysg neu o'r un rhyw. |
| Ysgariad | Y broses o roi terfyn cyfreithiol ar briodas. |
| Mabwysiadu | Y broses y mae person, neu gwpl, yn ei defnyddio i ddod yn rhieni cyfreithlon i blentyn nad yw'n perthyn iddynt yn fiolegol. |

**Adnodd 2**

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| Y Cenhedloedd Unedig | Sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd ym 1945 i gadw'r heddwch, helpu'r tlawd a diogelu hawliau. |
| Confensiwn | Cytundeb ffurfiol rhwng gwledydd ar faterion sydd o bwys i bob un ohonynt. |

| | |
|---|---|
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | Y cytundeb sy'n amlinellu hawliau pob plentyn. |
| Erthygl | Adran o gonfensiwn wedi'i rhifo sy'n cynnwys manylion yr hyn y cytunwyd arno. |
| Cadarnhawyd | Deddf ryngwladol yn cadarnhau cydsyniad Gwladwriaeth i fod yn rhwym i delerau'r confensiwn. |
| Cyfryngu | Proses wirfoddol lle mae gweithiwr proffesiynol annibynnol yn helpu rhieni a gofalwyr sydd wedi gwahanu i ddod i gytundeb heb fynd i'r llys. |
| Cyfryngu sy'n cynnwys plant | Proses lle mae'r plentyn yn cyfarfod â'r cyfryngwr ar wahân er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed. |
| Llys Teulu | Dyma le mae'r barnwr yn gwneud penderfyniadau pwysig am blant, pobl ifanc a'u teuluoedd os na all rhieni neu ofalwyr gytuno. |
| Cyfreithiwr | Person sydd wedi'i hyfforddi'n gyfreithiol sy'n rhoi cyngor i bobl sy'n mynd drwy'r llysoedd teulu ac sy'n gallu siarad ar eu rhan yn y llys [D.S. er gwybodaeth i athrawon, gall hwn fod yn gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr]. |
| Barnwr | Y person sy'n gweithio yn y llys sy'n gwrando ar bawb ac yn gwneud penderfyniad terfynol. |
| Cynrychiolaeth | Pan fydd cyfreithiwr yn siarad â'r barnwr ar ran person yn y llys – naill ai oedolyn neu blentyn. |
| Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd, Cymru (Cafcass Cymru) | Sefydliad yn Llywodraeth Cymru sy'n rhoi llais i unrhyw blentyn yng Nghymru sy'n ymwneud â'r system Cyfiawnder Teuluol. Y sefydliad sy'n cynrychioli plant yn y llys ac yn rhoi cyngor annibynnol i'r llys o ran beth sydd er budd pennaf gorau'r plentyn. |
| Cynghorydd Llys Teulu (FCA) | Y person o Cafcass sy'n cwrdd â'r plant i glywed eu dymuniadau a'u teimladau ac yn adrodd yn ôl i'r llys. |

| | |
|---|---|
| Canolfan Gyswllt | Man diogel lle gall plant a phobl ifanc weld rhiant nad ydynt yn byw gydag ef/hi. |
| Ymgeisydd | Person sy'n gwneud cais i'r llys. |
| Atebydd | Person sy’n ymateb i gais a wneir i’r llys. |

## Cyfeirio at gefnogaeth

### Cefnogaeth i athrawon

I gael arweiniad pellach ar CCUHP, ewch i:
https://www.unicef.org/media/62371/file/Convention-rights-child-at-crossroads-2019.pdf.

I gael arweiniad pellach ar ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yng Nghymru, ewch i:
https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/The-Right-Way.pdf.

I gael arweiniad pellach ar briodas, partneriaethau sifil a chyd-fyw ewch i:
www.gov.uk/browse/births-deaths-marriages/marriage-divorce.

### Cefnogaeth i ddysgwyr

I gael arweiniad pellach ar CCUHP, ewch i:
https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/08/GUIDE_Young_peoples_Guide_to_the_UNCRC.pdf.

I gael arweiniad pellach ar ffynonellau cymorth ar gyfer rhieni’n gwahanu ewch i:

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Cymru (NYAS Cymru):
https://www.nyas.net/nyas-cymru/ (Ffôn: 0808 8081001)

Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant: https://naccc.org.uk (Ffôn: 01159 484557).

Childline Cymru: https://www.childline.org.uk/info-advice/home-families/family-relationships/divorce-separation/ neu ar gyfer y fersiwn Gymraeg: https://www.childline.org.uk/get-support/contacting-childline/contacting-childline-in-welsh/ (Ffôn: 0800 1111).

The Exchange: https://www.exchange-counselling.com/primary/ (Ffôn: 0330 2020283).

Comisiynydd Plant Cymru: https://www.childcomwales.org.uk/(Ffôn: 0808 801000)

Cafcass Cymru: https://gov.wales/cafcass-cymru/family-separation (Ffôn: 0300 456 4000).

Relate Cymru: ://www.relate.org.uk/cymru/children-and-young-peoples-counselling (Ffôn: 03000030396).


University of Exeter

nyas cymru
gwasanaeth eiriolaeth ieuenctid cenedlaethol
national youth advocacy service

The National Association of Child Contact Centres
naccc
Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt Plant



Rosie




# Stori Rosie: Beth fydd yn digwydd os yw teuluoedd yn newid? (Rhan 1)

## Adnodd 1

Ariennir yn Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**

# Trossolwg Adnodd 1

## Stori Rosie: Beth fydd yn digwydd os yw teuluoedd yn newid? (Rhan 1)

Dyma’r cyntaf o ddau adnodd addysgu ar gyfer dysgwyr sy’n gweithio yng nghamau Cynnydd 2 a 3 sy’n canolbwyntio ar deuluoedd a newidiadau i deuluoedd os yw rhieni a gofalwyr yn gwahanu, gan gynnwys hawl plant a phobl ifanc i gael eu clywed o dan CCUHP, Erthygl 12, pan fydd penderfyniadau’n cael eu gwneud os yw rhieni a gofalwyr yn gwahanu. Isod ceir trosolwg o’r amcanion dysgu a’r canlyniadau dysgu ar gyfer y dysgu hwn, ynghyd â’r adnoddau sydd eu hangen a’r amser a awgrymir.

## Amcan dysgu

- Dysgu am wahanol fathau o deuluoedd a sut y gallant newid.

## Canlyniadau Dysgu

**Bydd dysgwyr yn gallu:**

- disgrifio'r gwahanol ffyrdd y gall pobl fod yn deulu
- esbonio rhai o'r ffyrdd y mae teuluoedd yn dangos eu bod yn gofalu am ei gilydd
- disgrifio’r ystod o emosiynau y gall plant a phobl ifanc eu teimlo pan fydd rhieni a gofalwyr yn gwahanu a’r hyn y gall ffrindiau ei wneud i’w cefnogi ar yr adeg honno.

## Adnoddau

- Nodiadau gludiog.
- Basged hoffwn holi/blwch cwestiynau i ddysgwyr ofyn cwestiynau'n gyfrinachol.
- Heblaw am yr uchod, nid oes angen adnoddau ychwanegol ar gyfer addysgu.

## Amseru

Mae'r adnoddau dysgu wedi'i gynllunio i gael ei addysgu am gyfnod o 45 munud.

## Hinsawdd dysgu

Darllenwch y canllawiau i athrawon cyn addysgu am gyngor ar sefydlu rheolau sylfaenol, terfynau cyfrinachedd a ffynonellau cymorth.

## Cefnogaeth ac estyniad

Er mwyn gwahaniaethu rhwng addysgu mae gan rai gweithgareddau gefnogaeth a gweithgareddau atodol wedi'u marcio ag eiconau isod ac ar y sleidiau.

## Allweddeiriau

Priodas
Ysgariad
Mabwysiadu

## Awgrymiadau dysgu ac amseru

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Amser a awgrymir |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | Rheolau sylfaenol, amcanion a chanlyniadau dysgu. | 5 munud |
| Gweithgaredd sylfaenol | Bydd dysgwyr yn awgrymu geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â 'theulu' a'r gwahanol bobl a all fod yn rhan o deulu. | 8 munud |
| Beth mae teuluoedd yn ei wneud i'w gilydd? | Bydd dysgwyr yn trafod ar eu byrddau beth mae aelodau o'r teulu, neu bobl sy'n arbennig iddyn nhw, yn ei wneud i wneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu caru a'u bod nhw'n cael gofal. | 7 munud |
| Cyflwyno Rosie | Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i Rosie; ble mae hi'n byw, ei ffrind ysgol a'i hathrawes a beth mae'n hoffi ei wneud. | 2 funud |
| Pwy sy'n rhan o deulu? | Mewn parau, gofynnir i ddysgwyr ystyried y bobl a’r grwpiau sy’n bwysig i Rosie a phenderfynu pa rai sy’n rhan o’i theulu. | 6 munud |
| Teimladau Rosie | Bydd dysgwyr yn ystyried sut y gallai Rosie fod wedi bod yn teimlo ar ôl i'w rhieni wahanu a sut y gallai Billy, ffrind Rosie, gefnogi Rosie. | 10 munud |
| Asesiad diweddbwynt | Bydd dysgwyr yn ailedrych ar yr atebion sylfaenol ac yn eu hadolygu fel y bo'n briodol. | 5 munud |
| Cefnogaeth bellach | Bydd dysgwyr yn ystyried y cymorth pellach sydd ar gael yn yr ysgol ac ar-lein. | 2 funud |

Mae'r adnodd wedi'i gynllunio i gael ei addysgu am gyfnod o 45 munud. Os bydd gennych amser ar gyfer sesiwn addysgu 60 munud, awgrymwn ychwanegu amser at y gweithgareddau canlynol gyda'r amseroedd diwygiedig canlynol:

Cyflwyniad (dim newid – 5 munud)
Gweithgaredd sylfaenol - 10 munud
Beth mae teuluoedd yn ei wneud i'w gilydd? – 10 munud
Cyflwyno Rosie - 3 munud
Pwy sydd yn nheulu Rosie? – 7 munud
Teimladau Rosie – 15 munud
Asesiad diweddbwynt – 6 munud
Cefnogaeth bellach – 4 munud

## Asesiad sylfaenol

### ⑤ Cyflwyniad – sleid 8-10

Trafodwch neu ailedrychwch ar y rheolau sylfaenol ar gyfer y dysgu. Cyflwynwch yr amcan dysgu a’r canlyniadau ac eglurwch y bydd addysgu heddiw yn archwilio teuluoedd a newidiadau i deuluoedd os yw rhieni a gofalwyr yn gwahanu.

Eglurwch fod y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn aros gyda’i gilydd ond bod rhai nad sy'n gwneud hynny ac y bydd y dysgwyr yn cael eu cyflwyno i ferch 9 oed ffug, Rosie, ac yn trafod y newidiadau yn ei theulu pan wahanodd ei rhieni 12 mis yn ôl.

### ❽ Gweithgaredd sylfaenol (Beth yw teulu?) – sleid 11

I ddechrau, gosodwch dair wal graffiti o amgylch yr ystafell gydag un pennawd fesul darn o bapur/siart fflip: 'Beth yw teulu?', 'Pwy all fod yn rhan o deulu?', 'Pa eiriau ydych chi'n meddwl amdanyn nhw pan fyddwch chi'n meddwl am deulu?'

Gofynnwch i’r dosbarth cyfan feddwl yn breifat am y cwestiynau hyn ac yna naill ai gofynnwch i’r dysgwyr godi a symud o gwmpas yr ystafell neu, os byddai’n well gennych, gallech ddosbarthu nodiadau gludiog i’r dysgwyr eu cwblhau i ateb y cwestiynau hyn, y gallant wedyn eu glynu ar bob 'wal'.

Peidiwch â rhoi unrhyw awgrymiadau pellach, hyd yn oed os bydd dysgwyr yn gofyn cwestiynau. Ni ddylent rannu eu syniadau gyda chyd-ddisgyblion yn ystod y gweithgaredd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi weld beth yw credoau a syniadau'r dysgwyr eu hunain ar 'deulu' cyn i'r dysgu ddechrau.

Gallai'r dysgwyr awgrymu:

- Beth yw teulu? (Grŵp o bobl sydd fel arfer yn byw gyda'i gilydd sy'n rhannu eu harian a'u bwyd ac yn gofalu am ei gilydd.)
- Pwy all fod yn rhan o deulu? (Rhieni/llys-rieni, plant, neiniau a theidiau/llys-deidiau, brodyr a chwiorydd, modrybedd, ewythrod, cefndryd, ac ati gan gynnwys rhieni sengl, rhieni o'r un rhyw, llys-rieni, teuluoedd cymysg, rhieni maeth neu rieni mabwysiadol.)
- Pa eiriau ydych chi'n meddwl amdanynt pan fyddwch chi'n meddwl am deulu? (Cariadus, gofalgar, cymwynasgar, rhannu, ymddiried, chwarae, cysuro.)

## Gweithgareddau craidd

### ❼ Beth mae teuluoedd yn ei wneud i'w gilydd? – sleid 12

Gan mai nod Adnodd 1 yw helpu dysgwyr i ddeall bod yna wahanol fathau o deuluoedd ac weithiau bod teuluoedd yn newid, mae’r ymarfer hwn yn ystyried yr hyn sy’n gyffredin rhwng gwahanol fathau o deuluoedd yn gyntaf trwy archwilio beth mae teuluoedd yn ei wneud i’w gilydd i ddangos eu bod yn poeni.

